Home Office Y Swyddfa Gartref

# Mae hwn yn rhybudd pwysig.

## Pam gwrthodwyd eich cais am gyfrif cyfredol

Mae cofnodion y Swyddfa Gartref yn nodi nad oes gennych ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig. O dan Adran 40 Deddf Mewnfudo 2014, ni chaniateir i fanciau na chymdeithasau adeiladu agor na darparu mynediad i gyfrifon cyfredol i chi.

Ni fydd unrhyw gais neu apêl a gyflwynir ar ôl derbyn yr hysbysiad hwn yn effeithio'n awtomatig ar y penderfyniad i wrthod y cyfrif hwn.

## Y camau nesaf

Os nad oes gennych sail ddilys i aros yn gyfreithiol yn y DU, dylech wneud trefniadau i adael cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd methu â gwneud hynny'n golygu y byddwch yn cael eich gorfodi i gael eich symud gan y Swyddfa Gartref.

Gellir cysylltu â'r Gwasanaeth Dychwelyd Gwirfoddol (VRS) i gael help a chyngor ar adael y DU. Gallant egluro'ch opsiynau ar gyfer dychwelyd adref, eich helpu i gael dogfennau teithio, talu am docynnau teithio os na allwch a darparu pecynnau ailintegreiddio.

Ar-lein: www.gov.uk/return-home-voluntarily/

Ffôn: 0300 004 0202 (Dydd Llun - Dydd Gwener rhwng 09.00 a 17.00)

Darganfyddwch ragor am dâl galwadau ar https://www.gov.uk/call-charges

Efallai yr hoffech gysylltu â'ch llysgenhadaeth genedlaethol neu eich uwch-gomisiwn am gymorth gyda dogfennau teithio, neu gymorth arall: Foreign embassies in the UK - GOV.UK (www.gov.uk)

## Sut i wneud i wneud ymholiad ynglŷn â’r penderfyniad hwn

Os ydych o’r farn eich bod wedi cael eich gwahardd ar gam rhag agor cyfrif, dylech gysylltu â'r Swyddfa Gartref drwy ffonio 0300 123 4979.

Gallwch hefyd gysylltu â'r Swyddfa Gartref drwyfynd i: https://www.gov.uk/guidance/ask-the-home-office-to-check-your- immigration-status-is-correct

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn, dylech wneud hynny drwy anfon e-bost at complaints@homeoffice.gov.uk , Neu drwy ysgrifennu at:

Hyb Dyrannu Cwynion UKVI
Complaints Allocation (IC),
UKVI Customer Correspondence Hub,
4th Floor,
2 Ruskin Square,
Ruskin Road,
Croydon,
CR0 2WF